## Y PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

## ADRODDIAD I'R CYNULLIAD

### 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad. Llunnir yr adroddiad hwn o dan reol Sefydlog 9.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc gyflwyno adroddiadau gerbron y Cynulliad o bryd i'w gilydd am sut y maent y dod i ben â'u blaenraglenni gwaith. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Mawrth 2000 tan 31 Mawrth 2001.

1.2 Newidiodd aelodaeth y pwyllgor sawl gwaith yn ystod y flwyddyn:

| | |
|---|---|
| Kirsty Williams (Cadeirydd) | Yn ddi-dor |
| Geraint Davies | Mawrth tan Hydref 2000<br>Tachwedd 2000 hyd heddiw |
| Jocelyn Davies | Hydref tan Tachwedd 2000 |
| Brian Gibbons | Tan ddiwedd Mawrth 2000<br>Tachwedd 2000 hyd heddiw |
| Brian Hancock | Tachwedd 2000 hyd heddiw |
| Jane Hutt (Gweinidog Cynulliad) | Yn ddi-dor |
| Pauline Jarman | Hydref tan Tachwedd 2000 |
| Ann Jones | Tan ddiwedd Mawrth 2000<br>Tachwedd 2000 hyd Heddiw |
| Helen Mary Jones | Mawrth tan Hydref 2000 |
| Dai Lloyd | Yn ddi-dor |
| David Melding | Yn ddi-dor |
| Lynne Neagle | Yn ddi-dor |
| Alun Pugh | Mawrth tan Tachwedd 2000 |
| Peter Rogers | Tan ddiwedd Mawrth 2000 |
| Gwenda Thomas | Tan ddiwedd Mawrth 2000 |

1.3 Yn ystod cyfnod yr adroddiad, cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol 21 o weithiau.

## 2. Cylch Gwaith y Pwyllgor

2.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae'n cwmpasu pob agwedd ar ofal iechyd; diogelwch bwyd, (gan gynnwys bwyd wedi ei addasu'n enetig); gwasanaethau a gofal cymdeithasol; plant a phobl ifanc, gan gynnwys gofal plant a chyfiawnder ieuenctid, a gafodd eu hychwanegu ym mis Hydref.

## 3. Dull o Weithio

3.1 Mae pob un o gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor wedi'u cynnal yng ngydd y cyhoedd. Wrth symud ei raglen waith yn ei blaen, parhaodd y Pwyllgor i gynnal trafodaethau â'r sefydliadau allweddol sy'n gysylltiedig â rheoli a darparu gwasanaethau. Rhestrir y sefydliadau hynny yn Atodiad 1. Maent yn cynnwys Cadeiryddion ac aelodau nifer o weithgorau. Hoffai'r aelodau ddiolch i'r holl bobl hynny a roddodd o'u hamser a'u gwybodaeth arbenigol i gynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo ystyried amrediad amrywiol o bynciau cymhleth.

## 4. Blaenoriaethau'r Pwyllgor

4.1 Yn "Gwell Cymru", dywedir y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio i drawsnewid perfformiad ac ansawdd ein gwasanaethau gofal ac iechyd yng Nghymru ac y bydd yn gwella tegwch, effeithiolrwydd, effeithlonrwydd, a rheolaeth ariannol, yn benodol trwy gynllunio rhaglenni gwella iechyd a mwy o gydweithio wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau. Mae'r Pwyllgor wedi mynd i'r afael â llawer o'r materion a nodwyd yn "Gwell Cymru", a bydd yn parhau i fynd ar drywydd yr amcanion yn "Gwell Cymru".

4.2 Yr oedd blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn fel a ganlyn:

- **Comisiynydd Plant Cymru**. Cwblhau ei adroddiad ac ystyried sut y byddai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith.
- **Rhaglenni Gwella Iechyd**. Monitro sut yr oedd y rhaglenni hyn yn datblygu ac yn cael eu rhoi ar waith.
- **Amserau Aros mewn Ysbytai.** Llywio a monitro gwaith y tasgluoedd arbenigol ar amserau aros ac ar y pwysau ar yr NHS.
- **Trefniadau cyllido tecach ar gyfer yr NHS.** Monitro'r adolygiad o'r Fformwla Dyrannu Adnoddau, a gwneud argymhellion ar sail canfyddiadau'r adolygiad hwnnw.
- **Amddiffyn y bobl hynny sydd mewn gofal yn well.** Rhoi cyngor ar sefydlu Comisiwn Safonau Gofal Cymru er mwyn codi safonau'r gweithlu, a hefyd ar Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru er mwyn gwella'r ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoleiddio. Hefyd rhoi cyngor ar weithredu Deddf Plant (Gadael Gofal).
- **Dull newydd o edrych ar ofal sylfaenol.** Parhau i gynnig cyngor ar y gwaith o ddatblygu'r strategaeth gofal sylfaenol.
- **Dull newydd o weithredu, a arweinir gan y gymuned, ym maes iechyd er mwyn mynd i'r**

**afael ag anghydraddoldeb o safbwynt iechyd.** Monitro sut y mae’r Grwpiau Iechyd Lleol yn dod yn eu blaen.

- **Strategaeth Gofalwyr i Gymru.** Bod yn rhan o’r trafodaethau cychwynnol am ddatblygu Strategaeth Gofalwyr.
- **Rhaglen gyfalaf wedi’i hailwampio.** Bod yn rhan o’r trafodaethau cyntaf am y rhaglen gyfalaf.

**5. Cynnydd**

5.1 Mae cyfrifoldebau pob un o’r pwyllgorau pwnc wedi’u pennu yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol:

"9.7 Bydd pob pwyllgor pwnc

> i. yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;
>
> ii. yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; a
>
> iii. yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

9.8 O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd:

> i. yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 22;
>
> ii. yn rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19;
>
> iii. yn cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21 (cwynion);
>
> iv. yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 20; a
>
> v. yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd."

5.2 Fel y llynedd, mae’r Pwyllgor wedi trafod amrediad eang o faterion sy’n adlewyrchu ehangder ei bortffolio. Ymwneud y mae’r gwaith hwn, yn bennaf, â chyfrannu at ddatblygu polisi ac at fonitro hynt y gwaith a wnaed mewn meysydd pwysig, ond mae’r Pwyllgor hefyd wedi craffu ar gyrff iechyd. Mae manylion y gwaith a wnaed i’w gweld yn Atodiad 2. Dyma rai o’r prif bethau y llwyddodd y Pwyllgor i’w cyflawni:

**Y Comisiynydd Plant**

5.3 Cwblhaodd y Pwyllgor ei waith ar y cyd â'r Pwyllgor Addysg cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar, a chyflwynwyd adroddiad gerbron y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn ym mis Mehefin. Cymerwyd argymhellion y Pwyllgor i ystyriaeth wrth ddrafftio'r Ddeddf Safonau Gofal, ac yr oeddent yn sail i Fesur Comisiynydd Plant Cymru. Sefydlwyd Pwyllgor ar wahân wedi hynny i gynghori ar benodi'r Comisiynydd. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod sefydlu swydd y Comisiynydd - y swydd gyntaf o'i bath yn y Deyrnas Unedig - yn gryn orchest. Hwyluswyd y gwaith gan fod yr holl bleidiau'n gytûn am yr angen am y swydd, ac am yr angen i roi blaenoriaeth iddi, a hefyd drwy gydweithrediad a chyfraniad sylweddol y sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y rhan a chwaraeodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru mewn sicrhau amser seneddol i'r deddfwriaeth cynradd.

**Ymestyn y Categorïau o Bobl sydd â'r Hawl i gael Profion Llygaid am Ddim**

5.4 Yr oedd y gwaith hwn hefyd wedi'i ddechrau yn ystod y flwyddyn flaenorol, ond cafodd adroddiad y Pwyllgor ei osod ym mis Mehefin, a chytunwyd â'r weinyddiaeth y dylid rhoi'r hawl hefyd i gael profion llygaid am ddim i bobl o leiafrifoedd ethnig, pobl â nam ar eu clyw, pobl ag ond un llygad, a'r rheini sydd mewn perygl o ddioddef retinitis pigmentosa, gan ariannu hyn ar gyfer 2000-2001.

5.5 Wedi hynny, cynghorwyd y Gweinidog gan arbenigwyr y byddai rhaglen benodol i ganfod clefyd y llygaid yn fwy buddiol i'r rheini a oedd mewn perygl. Dyfeisiwyd rhaglen arall a oedd yn cynnwys archwiliad gan optometrydd am glefyd y llygaid fel rhan o becyn i wella iechyd gweledol. Bydd yr archwiliad hwn ar geal pryd y mynnent I'r grwpiau hynny sydd mewn perygl arbennig, a bydd archwiliad tebyg ar gael I eraill o gael eu cyfeirio at y gwasanaeth gan feddyg teulu

5.6 Cytunwyd hefyd ar ddyrannu £1.7m ar gyfer datblygu ymgyrchoedd I gynyddu ymwybyddiaeth am glefydau'r llygiad a rhaglenni sgrinion, yn ogystal a mentrau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sgrinion am retinopathi clefyd y sigwr
- Datblygiadau yng ngofal llygaid sylfaenol, gan gynnwys atgyfeiriadau I'r sector uwch
- Ymwybyddiaeth o ofal llygaid, yn arbennig ymhlith lleiafrifoedd ethnig a grwpiau eraill sydd mewn perygl arbennig,
- Gwasanaeth cymorth golwg isel
- Ymchwilio a datblygu'r profion a'r dulliau o sgrinio am glawcoma, a
- Cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer llawdriniaeth pilenni'r llygaid

Cytunodd y Pwyllgor I'r pecyn hwn fir Mehefin 2000 trwy benderfyniad y mwyafrir.

**Pwysau Brys ac Amserau Aros mewn Ysbytai**

5.7 Yn rhan olaf 2000 trafododd y Pwyllgor adroddiadau gan y Grp Datblygu Strategaeth Amserau Aros a'r Tasglu Pwysau Brys. Bydd yn parhau i fonitro datblygiadau o ran lleihau amserau aros a lliniaru

pwysau wrth i argymhellion y grp gael eu rhoi ar waith. Mae perthynas agos rhwng y materion hyn a materion eraill y bu’r Pwyllgor yn eu hystyried, megis hyblygrwydd o dan y Ddeddf Iechyd.

**Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin**

5.8 Ym mis Tachwedd, cyflwynodd y Comisiwn Gwella Iechyd ei adroddiad ar lywodraethu clinigol yn yr Ymddiriedolaeth hon, a bu’r Pwyllgor yn trafod yr adroddiad gyda’r Ymddiriedolaeth, yr Awdurdod Iechyd a chynrychiolydd y Cynghorau Iechyd Cymuned. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod â’r Ymddiriedolaeth eto yn 2001 i drafod y cynllun gweithredu yr oedd yn ei lunio ar y cyd â’r Comisiwn Iechyd, a sut y mae’n mynd ati i’w roi ar waith.

**Adroddiad Ymchwiliad Phillips (BSE)**

5.9 Un o’r gorchwylion pwysicaf ac anoddaf y bu’r Pwyllgor yn ymgymryd ag ef oedd ystyried y materion yn codi o Adroddiad Phillips a oedd yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor. Yn ogystal â cheisio tystiolaeth ysgrifenedig gan y Swyddfa Gartref, yr Adran Nawdd Cymdeithasol a Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, cafwyd cyflwyniadau llafar gan y canlynol:

Y Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy

Y Sefydliad BSE Dynol

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Cyn Brif Swyddog Meddygol Cymru

Y Cydlynydd Gofal Cenedlaethol ar gyfer CJD

Cynrychiolwyr Awdurdodau Iechyd Cymru

Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

Y Pwyllgor Ymgynghorol ar Enseffalopathi Sbyngffurf (SEAC)

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Diogelu’r Cyhoedd yng Nghymru

Y Gwasanaeth Hylendid Cig

5.10 Gwnaed nifer o argymhellion gan y Pwyllgor o dan dri phrif bennawd:

- Anghenion y bobl hynny a oedd yn dioddef o vCJD, eu teuluoedd a’r rhai sy’n gofalu amdanynt;

- Y mesurau sydd yn eu lle i ddiogelu’r gadwyn fwyd dynol; a
- Hynt yr epidemig vCJD a’r ffordd y darperir cyngor gwyddonol.

Cafodd adroddiad y Pwyllgor ei osod ar 21 Mawrth, a bwriedir iddo fod yn sail i ddadl mewn cyfarfod llawn yn y dyfodol ar adroddiad Phillips.

**Arferion Rhagnodi**

5.11 Ym mis Mawrth, daeth adroddiad y Grp Gorchwyl a Gorffen ar Arferion Rhagnodi i law’r Pwyllgor. At ei gilydd, cafodd yr adroddiad groeso, er bod rhai meysydd a oedd yn destun pryder ac y gofynnwyd am fwy o wybodaeth yn eu cylch. Mae hefyd yn fwriad gan y Pwyllgor edrych ar y cynigion ar gyfer rhoi argymhellion y grp ar waith.

**Telefeddygaeth**

5.12 Cynhaliodd y Pwyllgor ei gyfarfod ar 28 Mawrth yn Arena Ryngwladol Caerdydd, a BT yn darparu cysylltiadau fideo â dau safle arall. Yr oedd y cyfarfod yn fodd i ddangos sut y gellir defnyddio fideogynadledda a chyfathrebu electronig i rannu gwybodaeth ac i gynorthwyo i wneud diagnosis ac argymell pa driniaeth i’w rhoi. Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau ar brosiectau teleofal / telefeddygaeth, y prosiect mân anafiadau yng Nghernyw a arweinir gan nyrsys, a Rhannu Gwybodaeth mewn Timau Gofal Sylfaenol, mewn Practis Cyffredinol ym Mhowys. Crëwyd cryn argraff ar yr aelodau gan y posibiliadau o ran gweithio mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol. Rhoddodd y Pwyllgor ei gefnogaeth i’r Strategaeth amlinellol ar gyfer Telefeddygaeth a Theleofal, gan nodi materion eraill yr oedd angen i’r strategaeth fynd i’r afael â hwy.

Yr oedd y Pwyllgor hefyd o’r farn y dylai’r Cynulliad Cenedlaethol ddefnyddio mwy ar fideogynadledda ar gyfer ei gyfarfodydd.

**Blaenoriaethau Cyllidebol**

5.13 Yn ystod ei drafodaethau ar y blaenoriaethau cyllidebol ar gyfer 2001-2002, nododd y Pwyllgor nifer o flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf ac ar gyfer y blynyddoedd wedyn, a bydd yn monitro sut yr eir ati i’w cyflawni. Fe’u nodwyd fel a ganlyn yn y llythyr dyddiedig 12 Gorffennaf 2000 oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor at yr Ysgrifennydd Cynulliad:

> **"Gwella iechyd a mynd i’r afael ag anghydraddoldebau**
>
> Dylid mynd i’r afael â’r problemau sy’n wynebu cymunedau difreintiedig, gan roi pwyslais ar y rhai lle mae iechyd waethaf, yn enwedig trwy’r rhaglen Rhoi Cymunedau’n Gyntaf. Dylid ystyried cyfraniad posibl parthau gweithredu iechyd / gofal cymdeithasol yn yr ardaloedd hyn.

**Gwasanaethau i Blant**

Rhoddir blaenoriaeth fawr o hyd i sefydlu swydd y Comisiynydd Plant.

**Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed**

Mae angen sicrhau darpariaeth er mwyn ymateb mewn ffordd gadarnhaol i adroddiad y Comisiwn Brenhinol ar Ofal Hir-dymor i'r Henoed. Byddai costau ychwanegol yn gysylltiedig â gwella'r broses reoleiddio ac â gwella safonau. Byddai hyn yn effeithio ar yr awdurdodau lleol ac ar y sector gwirfoddol. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig bod sefydlogrwydd o ran cyllid i'r sector gwirfoddol.

**Datblygiadau clinigol a datblygiadau o ran gwasanaethau**

O ystyried lefelau canser a chlefyd y galon yng Nghymru, rhaid parhau i roi i'r awdurdodau iechyd yr adnoddau y mae arnynt eu hangen er mwyn gwella'r gwasanaethau. Rhaid rhoi adnoddau i'r awdurdodau hefyd i ddarparu lefel uwch o wasanaethau lle bo angen hynny. Dylid monitro pa mor effeithiol ydynt yn hyn o beth trwy eu Cynlluniau Gwella Iechyd.

**Y Gwasanaeth Ambiwlans**

Yr oedd y Pwyllgor am sicrhau bod gan y Gwasanaeth Ambiwlans yr adnoddau yr oedd arno'u hangen er mwyn darparu gwasanaeth o'r safon angenrheidiol.

**Y Strategaeth Adnoddau Dynol**

Mae digon o gyllid er mwyn recriwtio a datblygu staff, ac er mwyn rhoi sail gadarn i'r strategaeth, yn hanfodol os am gyflawni'r blaenoriaethau eraill.

**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**

Mae defnyddio TGCh a thelefeddygaeth mewn modd effeithiol hefyd yn bwysig os ydym am sicrhau bod y gwasanaeth iechyd modern yn effeithlon.

**Y Sector Gwirfoddol**

Rhaid sicrhau bod gan y sector gwirfoddol ddigon o gyllid, a sicrwydd am y cyllid hwnnw, os yw am gynnal a datblygu ei gyfraniad i iechyd a gofal cymdeithasol."

5.14 Mae manylion y gwaith arall a wnaed gan y Pwyllgor i'w gweld yn Atodiad 2.

## 6. Y Rhaglen at y Dyfodol

6.1 Amgaeir y flaenraglen waith strategol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai 2001 a mis Rhagfyr 2002, a’r rhaglen fanwl ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2001 yn Atodiad 3. Mae rhai o’r materion yr eir i’r afael â hwy fel a ganlyn:

- Datblygu’r dewisiadau ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth a chefnogaeth i gleifion ar draws Cymru, gan gynnwys moderneiddio’r Cynghorau Iechyd Cymuned.
- Monitro sut y mae’r gwaith o weithredu Cynllun yr NHS yng Nghymru yn mynd rhagddo.
- Monitro’r datblygiadau o ran sefydlu Cyngor Gofal Cymru ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.
- Ystyried Adroddiad terfynol y Grp Llywio Cenedlaethol ar ddyrannu adnoddau yn yr NHS yng nghyd-destun "Gwella Iechyd yng Nghymru - Cynllun i’r NHS ynghyd â’i Bartneriaid".
- Monitro sut y mae’r Rhaglenni Gwella Iechyd yn cael eu datblygu a’u rhoi ar waith yng ngoleuni’r cynigion yng Nghynllun yr NHS.
- Gwaith dilynol ar y craffu a fu ar ddwy ymddiriedolaeth NHS yn ystod 2000.
- Monitro a yw’r Pwyllgor yn llwyddo i gyflawni’r blaenoriaethau cyllidebol a nodir ym mharagraff 5.13 uchod.

**Kirsty Williams**
**Cadeirydd** **Mawrth 2001**

**Atodiad 1**

**ORGANISATIONS WHICH HAVE MET WITH THE COMMITTEE**

National Screening Policy Team

Federation of Ophthalmic and Dispensing Opticians

Association of Optometrists, Welsh Council

Royal National Institute for the Blind

Wales Council for the Blind

Welsh Optometric Committee

North Wales Health Authority

Bro Taf Health Authority

NSPCC Cymru

Royal College of Paediatrics and Child Health

Community Practitioners and Health Visitors’ Association

Welsh Administration Ombudsman and Health Service Commissioner

Iechyd Morgannwg Health

North West Wales NHS Trust

Voices from Care

Association of Directors of Social Services

Welsh Local Government Association

Barnados

Welsh Ambulance Services NHS Trust

Prescribing Practices Task and Finish Group

Dyfed Powys Health Authority

District Audit

Waiting Times Strategy Development Group

Audit Commission

Primary Care Reference Strategy Group

Neath Port Talbot Local Health Group

Powys Local Health Group

Bro Taf Health Authority

Specialist Health Services Commission for Wales

Ysbyty Glan Clwyd

Association of Community Health Councils

Pembrokeshire County Council

Bro Morgannwg NHS Trust

North Wales Health Authority

Rhondda Cynon Taff Local Health Group

Welsh Ambulance Service NHS Trust

Carmarthenshire NHS Trust

Commission for Health Improvement

Llanelli Community Health Council

**Atodiad 2**

| Policy Development | Scrutiny | Monitoring |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Extension of Categories of People Entitled to Free Eye Tests | Welsh Ambulance Services NHS Trust | Report on the N. Wales Child Abuse Inquiry |
| Independent Children's Commissioner | Dyfed Powys Health Authority – Report by District Audit | Audit of the Working Practices of<br><br>Social Services Inspectorate, Wales |
| Substance Misuse Strategy | Carmarthenshire NHS Trust – Report by Commission for Health Improvement | Welsh Affairs committee report on Childcare |
| NHS Wales Strategy Project | | Joint Audit Commission / Social Services Inspectorate Wales Review of Local Authorities |
| Health Action Zones | | Report of the Chief Social Services Inspector. |
| Prescribing Practices | | |
| Adoption and Fostering Regulations | | |
| NHS Resource Allocation Review | | |
| Successor body to the Welsh National Board of Nursing, Midwifery and Health Visiting | | |
| Physical Punishment of Children | | |
| Emergency Pressures | | |
| Long Term Care of the Elderly | | |

| | | |
|---|---|---|
| Flexibiliites under the Health Act | | |
| Prescribing Practices | | |
| Waiting Times Strategy | | |
| Innovations in Care | | |
| Sustainable Development Scheme | | |
| Primary Care and Local Health Groups | | |
| Coronary Heart Disease – National Service Framework | | |
| Strategy for Children and Young People | | |
| BSE Inquiry Report | BSE Inquiry Report | BSE Inquiry Report |
| Infertility Services | | |
| Improving Health in Wales - a Plan for the NHS and its Partners | | |
| Adult Mental Health Strategy | | |
| Telemedicine and Telecare | | |

**NB –** ***The Committee also received papers on a number of other issues on which the members did not consider they needed substantive discussion.***

**Atodiad 3**

**Y PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

## RHAGLEN STRATEGOL

### Dyletswyddau'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn un o chwe phwyllgor pwnc. Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol:

"9.7. Bydd pob pwyllgor pwnc

> i. yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;
>
> ii. yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; a
>
> iii. yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.
>
> 9.8. O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd,
>
> i. yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 22;
>
> ii. yn rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19;
>
> iii. yn cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21 (cwynion);
>
> iv. yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 20; ac
>
> v. yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd."

O dan Reol Sefydlog 9.9, mae'n ofynnol i'r pwyllgor pwnc gynnal rhaglen waith dreigl sy'n cwmpasu cyfnodau o 12 mis, o leiaf.

Os hoffech fanylion aelodau'r Pwyllgor, cliciwch yma.

### Nodau ac Amcanion y Pwyllgor

Yr amcan allweddol ym mlaenraglen waith y Pwyllgor yw integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal

cymdeithasol. Mae'r rhaglen yn mynd i'r afael â'r materion allweddol, sef ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd a'r ffactorau sy'n arwain at afiechyd. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau ei fod, wrth adolygu a datblygu polisi, yn gwneud argymhellion a fydd yn arwain at wasanaethau o safon uchel sy'n rhoi gwerth am arian. Bydd hefyd am sicrhau ei fod yn fodlon bod gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harchwilio'n briodol, yn enwedig y rheini ar gyfer pobl sy'n agored i niwed.

Mae'r ethos hwn yn cyd-fynd ag egwyddorion "Gwell Cymu", cynllun strategol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Y Cynlluniau Statudol**

Bydd y Pwyllgor hefyd yn cymryd i ystyriaeth gynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cysylltiadau ag awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, a'r cynllun datblygu cynaliadwy.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar gyfarfodydd Gweinidog y Cynulliad gyda'r Sector Gwirfoddol o leiaf unwaith y flwyddyn yn unol ag adran 3.7 o'r Cynllun Sector Gwirfoddol.

**Blaenoriaethau'r Pwyllgor**

Mae "Gwell Cymru" yn datgan y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio i weddnewid perfformiad a safon gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru ac y bydd yn sicrhau mwy o degwch, gwell effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a rheoli ariannol, yn enwedig drwy gynllunio a chydweithredu'n well wrth gomisiynu a chyflwyno gwasanaethau. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi ymdrin â llawer o'r materion a nodwyd yn "Gwell Cymru" fel materion y dylai'r Cynulliad weithredu arnynt yn gyflym. Bydd yn parhau i geisio cyflawni amcanion "Gwell Cymru".

- **Comisiynydd Plant i Gymru.** Bydd y Pwyllgor yn cael cyfle i wneud sylwadau ar reoliadau a monitro hynt gwaith y Comisiynydd.
- **Rhaglenni Gwella Iechyd.** Bydd yn parhau i fonitro sut y bydd y rhaglenni hyn yn datblygu ac yn cael eu gweithredu fel rhan o'i waith yn archwilio awdurdodau iechyd.
- **Amserau Aros mewn Ysbytai.** Bydd y pwyllgor yn parhau i fonitro perfformiad ar amseroedd aros mewn ysbytai a'r pwysau ar yr NHS.
- **Trefniadau cyllido tecach i'r NHS.** Mae'r Pwyllgor wedi comisiynu adolygiad o fformwla dyrannu adnoddau'r NHS. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad y Grwp Llywio Cenedlaethol yng nghyd-destun "Gwella Iechyd yng Nghymru - Cynllun i'r GIG ynghyd â'i Bartneriaid'.
- **Amddiffyn y rhai sydd mewn gofal yn well.** Bydd y pwyllgor yn rhoi cyngor ar sefydlu'r Cyngor Gofal i Gymru i godi safonau'r gweithlu, a hefyd ar Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru i wella'r ffordd y rheolir gwasanaethau. Bydd hefyd yn rhoi cyngor ar weithredu'r Ddeddf Plant (Gadael Gofal).
- **Ffordd newydd o edrych ar ofal iechyd sylfaenol.** Bydd yn parhau i gynghori ar ddatblygu'r strategaeth gofal sylfaenol.
- **Agwedd newydd a arweinir gan y gymuned at iechyd sy'n mynd i'r afael ag**

**anghydraddoldeb o safbwynt iechyd**. Bydd y Pwyllgor yn monitro cynnydd y Grwpiau Iechyd Lleol.

- **Strategaeth Gofalwyr i Gymru.** Bydd yn parhau i fonitro a rhoi cyngor ar ddatblygu Strategaeth Gofalwyr.
- **Rhaglen gyfalaf wedi'i hailwampio**. Mae'r Pwyllgor yn dymuno ymwneud â'r trafodaethau cyntaf ar y rhaglen gyfalaf.
- **Moderneiddio Eiriolaeth dros Gleifion a'r Gefnogaeth iddynt.** Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r trefniadau cyfredol ar gyfer cysylltu â'r cyhoedd ac eiriolaeth dros gleifion.

Yn ystod ei drafodaethau ar flaenoriaethau'r gyllideb ar gyfer 2001-2002, nododd y Pwyllgor nifer o flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a thu hwnt, a bydd yn monitro'u datblygiad. Nodwyd y rhain yn y llythyr, dyddiedig 12 Gorffennaf 2000, oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cynulliad:

> **"Gwella iechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau**
>
> Dylid mynd i'r afael â phroblemau cymunedau difreintiedig, gyda phwyslais ar y cymunedau hynny lle mae'r afiechyd mwyaf, yn enwedig drwy'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Dylid ystyried cyfraniad posibl ardaloedd gweithredu gofal iechyd/ cymdeithasol yn y mannau hyn.
>
> **Gwasanaethau Plant**
>
> Erys sefydlu swydd Comisiynydd Plant i Gymru yn flaenoriaeth uchel.
>
> **Gwasanaethau ar gyfer yr henoed**
>
> Mae angen gwneud darpariaethau er mwyn ymateb yn gadarnhaol i adroddiad y Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir ar gyfer yr Henoed. Byddai cost ynghlwm wrth well reoliadau a gwell safonau. Byddai hyn yn effeithio ar awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Cred y Pwyllgor ei bod yn bwysig sefydlogi cyllid ar gyfer y sector gwirfoddol.
>
> **Datblygiadau clinigol a gwasanaethau**
>
> Yng ngoleuni'r lefelau cancr a chlefyd coronaidd y galon yng Nghymru, mae'n rhaid i awdurdodau iechyd barhau i gael yr adnoddau sydd eu hangen i wella gwasanaethau. Mae hefyd yn rhaid i awdurdodau gael yr adnoddau i gynyddu gallu gwasanaethau lle bo angen. Dylid monitro eu heffeithiolrwydd drwy eu Cynlluniau Gwella Iechyd.
>
> **Gwasanaeth Ambiwlans**
>
> Roedd y pwyllgor yn bryderus y dylai'r Gwasanaeth Ambiwlans gael yr adnoddau i

ddarparu gwasanaethau o safon.

**Strategaeth Adnoddau Dynol**

Mae'n hanfodol bod cyllid digonol ar gael i recriwtio a datblygu staff ac i fod yn sail i'r strategaeth os ydym am gyflawni blaenoriaethau eraill.

**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**

Mae'r defnydd effeithiol o TGCh a thele-feddygaeth hefyd yn bwysig i sicrhau effeithlonrwydd gwasanaeth iechyd modern.

**Y Sector Gwirfoddol**

Mae'n rhaid i'r sector gwirfoddol gael cyllid digonol a sicr os yw'n mynd i gynnal a datblygu ei gyfraniad at iechyd a gofal cymdeithasol."

**Atodiad 4**

## Y PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

## BLAENRAGLEN WAITH

## MAI – GORFFENNAF 2001

| Eitem | Amser (munudau) | Sylwadau |
|---|---|---|

**Dydd Mercher 2 Mai**

| | | |
|---|---|---|
| Adroddiad Misol y Gweinidog | 30 | |
| Ymddiriedolaeth NHS Gwasnaethau Ambiwlans Cymru | 60 | *Dilyniant i'r astudiaeth ym mis Ebrill 2000* |

| | | |
|---|---|---|
| Moderneiddio Eiriolaeth/ Cefnogaeth i Gleifion a Chyswllt â'r Cyhoedd | 55 | *Adroddiad y Grwp Ymgynghorol* |
| Adroddiad y Pwyllgor o dan RhS 9.9 | | *Cymeradwyo'r drafft* |
| Strategaeth Iechyd Meddwl Oedolion | 50 | |

**Dydd Mercher 16 Mai**

| | | |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin | 90 | *Dilyniant i'r astudiaeth ar 22 Tachwedd ar adroddiad y Comisiwn Gwella Iechyd* |
| Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat a'r Fenter Cyllid Preifat yng Nghymru | 50 | *Penderfyniad y Cyfarfod Llawn 5.12.00* |
| Y Comisiynydd Plant - Rheoliadau Drafft | 30 | |

**Dydd Mercher 6 Mehefin**

| | | |
|---|---|---|
| Adroddiad Misol y Gweinidog | 45 | |
| Iechyd a Lles Plant | 65 | |
| Cyllideb 2002-2003 | 60 | *Ystyriaeth gychwynnol o'r blaenoriaethau* |

**Dydd Mercher 20 Mehefin**

| | | |
|---|---|---|
| Blaenoriaethau a gwariant Llywodraeth Leol ym maes gwasanaethau cymdeithasol | 60 | *Trafodaeth gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol. Gwahodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai* |

| | | |
|---|---|---|
| Recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol | 60 | *Gwahodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai* |
| Gofal Hir-dymor i'r Henoed - Gofal personol am ddim | 50 | |

**Dydd Mercher 4 Gorffennaf**

| | | |
|---|---|---|
| Adroddiad Misol y Gweinidog | 45 | |
| Cyllideb 2002-2003 | 60 | *Trafodaeth derfynol ar flaenoriaethau* |
| Adroddiad y Grwp Llywio Cenedlaethol ar Ddyrannu Adnoddau | 65 | *Cyflwyniad a thrafodaeth ar argymhellion y grwp* |

**Dydd Mercher 18 Gorffennaf**

| | | |
|---|---|---|
| Moderneiddio Eiriolaeth/ Cefnogaeth i Gleifion a Chyswllt â'r Cyhoedd | 45 | *Trafodaeth ar yr ymateb i'r broses ymgynghori* |
| Adroddiad Blynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd | 45 | |
| Adroddiad Cyfarfod Gweinidog y Cynulliad gyda'r Sector Gwirfoddol | 40 | |

**EITEMAU ERAILL POSIBL I'W CYNNWYS**

- Perygl clefyd y galon ymysg pobl ifanc
- Fflworideiddio – sut y gallai weithio yng Nghymru
- Plant a Phobl Ifanc – Fframwaith ar gyfer Partneriaeth – *Ystyriaeth o'r ymatebion i'r broses ymgynghori (gweler HSS-18-00)*
- Ystyried y goblygiadau o ymestyn yr hawl i bresgripsiynau am ddim ymhellach – (gweler HSS-19-00)
- Strategaeth Gofalwyr – Adroddiad blynyddol y Gweinidog ar weithredu'r strategaeth (Mis Mai –

*papur i'w nodi*)

- Archwiliad Diheintio / Sterileiddio (*papur i'w nodi*)
- Clefyd Coronaidd y Galon – Fframwaith Safonau Cenedlaethol (*papur i'w nodi*)
- Grwp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor Partneriaeth ar Iechyd a Lles (*papur i'w nodi*)

**Eitemau ar gyfer mis Medi ymlaen**

Adroddiad y Comisiwn Gwella Iechyd ar Wasanaethau Canser

Rhaglenni Gwella Iechyd (papur i'w nodi) (Mis Medi)

Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn (Chwefror 2002)

Ystyriaeth bellach bosibl ar BSE / vCJD

Peter Clarke – Y Comisiynydd Plant (Adroddiad ar y flwyddyn gyntaf)

Grwp Gorchwyl a gorffen ar Arferion Rhagnodi yng Nghmru - Rhoi'r Argymhellion ar Waith